# Mae sgamiau buddsoddi a phensiynau yn aml yn soffistigedig ac mae'n anodd sylwi arnynt

FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY

## Byddwch yn fuddsoddwr ScamSmart a sylwi ar yr arwyddion rhybudd

Bydd twyllwyr yn aml:

- yn cysylltu â chi'n annisgwyl
- yn rhoi pwysau arnoch i fuddsoddi'n gyflym
- yn rhoi'r argraff nad ydych yn cymryd risgiau gyda'ch arian
- yn addo enillion deniadol sy'n swnio'n rhy dda i fod yn wir
- yn dweud mai dim ond i chi mae'r cynnig ar gael neu hyd yn oed yn gofyn i chi beidio â sôn amdano wrth neb arall

## Sut i osgoi sgamiau buddsoddi a phensiynau

**1** **Gwrthodwch gynigion annisgwyl**
Fel arfer, mae sgamwyr yn ffonio heb wahoddiad, ond gallant gysylltu hefyd drwy e-bost, drwy'r post, ar lafar neu mewn seminar. Os ydych chi wedi cael cynnig buddsoddi'n annisgwyl, mae'n debyg ei fod yn fuddsoddiad risg uchel neu'n sgam.

**2** **Edrychwch ar Restr Rybuddio'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)**
Defnyddiwch Restr Rybuddio'r FCA i wirio risgiau buddsoddiad posibl – gallwch hefyd chwilio i weld a ydym yn gwybod am y cwmni fel un sy'n gweithredu heb ein caniatâd ni.

**3** **Gofynnwch am gyngor diduedd**
Gofynnwch am gyngor diduedd cyn buddsoddi – peidiwch â defnyddio cynghorydd o'r cwmni wnaeth gysylltu â chi.

## Os ydych chi'n amheus, rhowch wybod

Gallwch roi gwybod i ni am y cwmni neu'r sgam drwy gysylltu â'n **Llinell Gymorth Defnyddwyr** ar **0800 111 6768** neu lofnodi ein ffurflen adrodd gan ddefnyddio'r ddolen isod.

Os ydych chi wedi colli arian mewn sgam, cysylltwch ag Action Fraud ar 0300 123 2040 neu www.actionfraud.police.uk

**Byddwch yn fuddsoddwr ScamSmart a mynd i www.fca.org.uk/scamsmart**